EOC-03-00(min)

**Pwyllgor Cyfle Cyfartal**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 13 Ebrill 2000 |
| **Amser:** | 9.30 am |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |
| **Yn bresennol:** | **Aelodau** |

| | |
|---|---|
| Edwina Hart (Cadeirydd) | Gyr |
| Christine Chapman | Cwm Cynon |
| Glyn Davies | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Richard Edwards | Preseli Sir Benfro |
| Alison Halford | Delyn |
| Gareth Jones | Conwy |
| Helen Mary Jones | Llanelli |
| David Melding | Canol De Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |

**Ymgynghorwyr i'r Pwyllgor**

| | |
|---|---|
| Kate Bennett | Comisiwn Cyfle Cyfartal |
| Kevin Fitzpatrick | Comisiwn Hawliau Anabledd |
| Mashuq Ally | Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Mike Harper | Is-adran Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cydraddoldeb a Phenodiadau Cyhoeddus |
| Charles Willie | Uned Polisi Cydraddoldeb |
| Andrew George | Clerc |
| Julie Bragg | Dirprwy Glerc |

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Lorraine Barrett a Kirsty Williams.

**Eitem 1 ar yr Agenda: Adroddiad y Cadeirydd**

1.1 Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod drwy groesawu pawb a oedd yn bresennol, yn arbennig Alison Halford a etholwyd yn ddiweddar i'r Pwyllgor. Roedd Lorraine Barrett hefyd yn aelod newydd ond yn anffodus nid oedd yn bresennol yn y cyfarfod hwn. Dymunai'r Cadeirydd anfon dymuniadau gorau'r Pwyllgor at Val Feld, AC, Cadeirydd y Pwyllgor Datblygu Economaidd, ar gyfer adferiad llawn a buan o'i salwch cyfredol.

1.2 Er mai dim ond tair wythnos yn gynt y cynhaliwyd cyfarfod diwethaf y Pwyllgor, gwnaed llawer o waith yn y cyfamser. Cynhaliwyd cyfarfodydd anffurfiol i ystyried materion yn ymwneud â Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (ASPBs) a phenodiadau cyhoeddus a byddai papurau cysylltiedig yn cael eu hystyried yn ddiweddarach yn yr agenda. O ganlyniad i'r gwaith hwn, ni fu'n bosibl i'r is-grp ar Ymchwiliad Stephen Lawrence i gynnal cyfarfod ond roedd y Cadeirydd wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cynulliad dros Addysg a Phlant parthed sefydlu'r gweithgor o swyddogion ac roedd yn aros am ymateb.

1.3 Bwriadwyd cynnal cyfarfod mis Mehefin y Pwyllgor yng Ngogledd Cymru. Fodd bynnag, roedd dyfodiad y seithfed Pwyllgor Pwnc wedi golygu ei bod yn anos ymgymryd ag ymweliad o'r fath yn ystod y tymor nesaf. Er bod y Pwyllgor yn cydnabod ei bod yn bwysig iawn cyfarfod y tu allan i Gaerdydd, cytunwyd y dylid gohirio cyfarfod yng Ngogledd Cymru tan yr hydref lle y gallai amserlen y Cynulliad fod yn fwy addas yn hyn o beth.

1.4 Roedd y Cadeirydd wedi dosbarthu gohebiaeth gan Val Feld ar osod cydraddoldeb yn y brif ffrwd ac wedi gofyn am farn y Pwyllgor ar ymateb. Cytunwyd y byddai rhestr wirio a ddarparwyd gan y Comisiwn Cyfle Cyfartal (EOC) yn fan cychwyn da. Crybwyllodd y Cadeirydd hefyd fod sefydliad o'r enw SWISH wedi cysylltu â'r Pwyllgor i holi a oeddent yn bwriadu ystyried y mater o rywioldeb. Cytunwyd y dylid gosod y mater hwn ar yr agenda ar gyfer un o gyfarfodydd haf y Pwyllgor.

1.5 Roedd Julie Mellor, Cadeirydd yr EOC, hefyd wedi cysylltu â'r Cadeirydd i ofyn am gyfarfod ar faterion yn ymwneud â rhyw. Gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i gymryd rhan mewn cyfarfod anffurfiol gyda Ms Mellor i drafod materion yn ymwneud â rhyw a rôl Comisiynydd Cymru. Roedd

eisoes wedi cynnal trafodaethau anffurfiol defnyddiol gyda'r Comisiwn Hawliau Anabledd (DRC) ac roedd am i'r Pwyllgor gymryd rhan lawn yn achlysur lansio arfaethedig y DRC yng Nghymru, o bosibl yng nghyd-destun digwyddiad yng nghynhadledd y TUC yng Nghymru ym mis Mai.

**Eitem 2 ar yr Agenda: Yr Archwiliad Cydraddoldeb a Blaenraglen Waith Ddiwygiedig y Pwyllgor Papur: EOC-03-00(p.1)**

2.1 Gwahoddodd y Cadeirydd Charles Willie i roi trosolwg o ganlyniadau'r Archwiliad Cydraddoldeb a ystyriodd sut roedd pob un o 57 o Is-adrannau'r Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried cydraddoldeb yn eu polisïau a'u harferion. Eglurodd Charles Willie mai adroddiad ar y cynnydd wrth gwblhau cam cyntaf y rhaglen waith pedwar cam a gymeradwywyd gan y Pwyllgor yn ei ail gyfarfod ym mis Medi 1999 oedd yr adroddiad hwn. Byddai adroddiad mwy cyflawn yn cael ei gynhyrchu ar ôl i'r Cyfarwyddwyr Grp (uwch dîm rheoli'r Cynulliad) ystyried y canfyddiadau hyn ar ddechrau mis Mai ac yn dilyn hyn byddai'r broses o gynnwys y Cynulliad cyfan yn y canlyniadau yn dechrau.

2.2 Roedd yr arolwg wedi ystyried lefel y wybodaeth a'r ystyriaeth a roddir i gyfle cyfartal, pa gamau gweithredu oedd ar gael i'w monitro ymhob is-adran a'r nodau ar gyfer gweithredu yn y dyfodol. Roedd yr asesiad wedi dangos lefel gyson uchel o ymwybyddiaeth a rhywfaint o arfer da ond roedd llawer i'w wneud o hyd. Nid oedd unrhyw beth newydd wedi'i ddatgelu yn y canfyddiadau ac roedd y casgliadau yn gyffredin i'r rhan fwyaf o Is-adrannau.

2.3 Cyflwynodd Charles Willie sylwadau ar y canfyddiadau a ddaeth i'r amlwg o dan sawl pennawd:

- **Cyfrifoldeb** – roedd barn glir iawn bod angen i'r Cynulliad gymryd cyfrifoldeb a gwneud ymrwymiad cadarnhaol i gydraddoldeb. Roedd hyn yn arbennig o wir am yr Is-adrannau sy'n monitro ac yn gwerthuso gwaith ASPBs.
- Roedd **cyfeiriadau** at gydraddoldeb yn aml iawn yn ymhlyg mewn cynlluniau a dogfennau Is-adrannol eraill.
- **Arferion recriwtio** – Roedd yr is-adrannau yn cydnabod yr angen am fwy o hyblygrwydd i recriwtio am anghenion penodol na'r hyn a ganiateir gan arferion cyfredol. Roedd yr angen i adolygu arferion recriwtio yn cyfateb yn dda gyda menter Gwell Llywodraeth yr Ysgrifennydd Parhaol.
- **Ymroddiad ar y lefel uchaf** – Roedd amgyffrediad clir o ymroddiad gan uwch swyddogion ond gellid gwella'r ffordd y dangoswyd ac y cyfathrebwyd yr ymroddiad hwnnw.
- Wrth fynychu **cyfarfodydd** a chwblhau **cyflwyniadau** cyngor, roedd angen i swyddogion roi ystyriaeth i gydraddoldeb bob amser.
- Nid oedd arferion **monitro, gwerthuso ac addasu** wedi'u datblygu'n dda.
- **Hyfforddiant ac ymwybyddiaeth** – Nododd pob Is-adran fod angen hyfforddiant arnynt ac y byddai hyn yn un o'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer y flwyddyn ganlynol.
- **Ymgynghori** – Roedd angen i'r Cynulliad sicrhau mwy o ddeialog gyda gwahanol gymunedau a chysylltu â'r sefydliadau cydraddoldeb ar gam llawer cynharach.

2.4 Fel casgliad, cydnabu Charles er bod y canfyddiadau o reidrwydd rywfaint yn oddrychol, na ddylai hyn dynnu oddi ar ddilysrwydd yr arolwg. Roedd angen i'r Cynulliad ddarparu arweiniad clir wrth osod y pwnc yn y brif ffrwd ac roedd yn y sefyllfa unigryw o gael cymorth yn hyn o beth gan y Mesur Diwygiadau Cysylltiadau Hiliol arfaethedig, Deddf Llywodraeth Cymru a'r ymrwymiad gwleidyddol a ymgorfforwyd yn y Pwyllgor Cydraddoldeb. Roedd y broses a sbardunwyd gan yr arolwg yn ymwneud â gwerthoedd, credoau ac agweddau cyfnewidiol a byddai hyn oll yn cymryd amser. Fodd bynnag, yn dilyn y cyfweliadau, roedd Is-adrannau eisoes wedi dechrau gofyn am gyngor gan yr Uned Polisi Cydraddoldeb a oedd yn argoeli'n dda i'r dyfodol.

2.5 Wrth drafod, codwyd y pwyntiau canlynol:

- Roedd angen i bob is-adran ganolbwyntio ar sut y gallai symud ymlaen. Roedd llawer iawn o waith i'w wneud i newid agweddau a byddai angen sefydlu gweithdrefn gadarn er mwyn cyflawni hyn ac i fesur lefel y newid dros gyfnod o amser. Fodd bynnag, pe gellid dangos cynnydd bach yn gyflym, gallai hyn gael dylanwad enfawr ar y sefydliad yn gyffredinol.

- Roedd yn bwysig peidio â chreu atgasedd drwy ymddangos fel petai pobl yn cael eu rhefru. Pe fabwysiadwyd yr ymagwedd anghywir, gallai ymwrthodiad diwylliannol a sefydliadol olygu y byddai'r fenter yn methu.

- Er mai cenedl, hil ac anabledd oedd y tri llinyn a ystyriwyd gan yr arolwg, ni ddylid anghofio meysydd eraill gan gynnwys iaith.

- Y materion pwysicaf i ymdrin â hwy oedd codi ymwybyddiaeth ac amgyffrediadau unigolion o beth sy'n gyfystyr â chydraddoldeb. Fodd bynnag, gellid cyflawni hyn drwy newid ymddygiad pobl yn y lle cyntaf.

- Defnyddiwyd y gair 'ymhlyg' sawl gwaith yn y dadansoddiad. Roedd angen sicrhau bod y materion a'r dull o ymdrin â hwy yn amlwg er mwyn gofyn i bobl weithredu.

- Roedd amgyffrediad cyffredinol yr ymdriniwyd eisoes â materion yn ymwneud â rhyw ac mai'r unig faterion oedd yn weddill i ymdrin â hwy oedd materion yn ymwneud ag anabledd a hil. Nid oedd hyn yn wir.

- Roedd angen i hyfforddiant fod yn ymarferol er mwyn i swyddogion allu gweld sut roedd ymdrin â materion cydraddoldeb yn berthnasol i'w swyddi penodol hwy. Hwyrach y byddai angen mwy o adnoddau ar yr Uned Polisi Cydraddoldeb i gyflawni hyn a'r holl dasgau eraill a oedd ynghlwm wrth ymdrin â chanfyddiadau'r arolwg. Roedd yr Ysgrifennydd Parhaol wedi nodi yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor ei fod wedi cadw rhywfaint o arian wrth gefn i'w ddefnyddio i gynyddu adnoddau staff yr Uned pe byddai angen.

- Gan fod pob un o'r swyddogion eisoes yn brysur iawn, roedd yn bwysig taro cydbwysedd rhwng

pwysigrwydd gwaith cydraddoldeb ac osgoi rhoi gormod o bwysau ar staff. Oni ddangoswyd ymrwymiad o'r brig, gan gynnwys y Cabinet, byddai'n anodd gweithredu newidiadau. Roedd angen i benaethiaid Is-adrannau'r Cynulliad ddangos eu hymrwymiad personol hwy i gydraddoldeb yn eu Cynlluniau Is-adrannol blynyddol.

2.6 Mewn ymateb i'r pwyntiau hyn, ailbwysleisiodd Charles Willie ymrwymiad personol yr Ysgrifennydd Parhaol a George Craig, Uwch Gyfarwyddwr y Cynulliad dros Bolisi Cymdeithasol a Materion Llywodraeth Leol. Byddai dau o aelodau'r Uned Polisi Cydraddoldeb yn cyflwyno'r materion ar hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth. Roeddent eisoes wedi dechrau teilwra'r hyfforddiant hwn ac roedd rhaglen beilot wrthi'n cael ei datblygu gydag un o'r Is-adrannau Llywodraeth Leol. Byddai trafodaethau gyda Chyfarwyddwyr Grp a Phenaethiaid Is-adrannau ar gamau ymarferol yn dechrau cyn y Pasg. Byddai unrhyw gamau gweithredu hefyd yn cael eu cyfeirio drwy Ysgrifenyddion a Phwyllgorau Pwnc y Cynulliad.

2.7 Gofynnodd y Cadeirydd am bapur i'r Pwyllgor ar y camau nesaf a'r amserlenni cysylltiedig er iddi nodi ei barn os oedd ewyllys wleidyddol i weithredu, nad oedd yr amserlenni eu hunain mor bwysig. Teimlai hefyd y gallai'r papur hwn ystyried effaith deddfwriaeth Ewropeaidd ar gydraddoldeb o ran cenedl. Awgrymodd y dylai'r Pwyllgor gyfarfod ag uwch reolwyr y Cynulliad yn anffurfiol gyda'r ymgynghorwyr cydraddoldeb i drafod beth oedd yn feysydd o flaenoriaeth ym marn y Pwyllgor. Byddai hyn yn golygu y gellid datblygu'r agenda ar y cyd. Cynigiodd hefyd ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Parhaol i amlinellu blaenoriaethau'r Pwyllgor.

2.8 Nododd aelodau'r Pwyllgor y lefel amrywiol o ystyriaeth a dderbyniodd materion cydraddoldeb yn eu Pwyllgorau Pwnc perthnasol. Llwyddodd rhai Pwyllgorau, megis Datblygu Economaidd, i ystyried cydraddoldeb yn fanwl wrth ystyried cais Cymru am arian Amcan Un. Awgrymwyd y gallai cydraddoldeb ymddangos fel eitem benodol ar yr agenda i bob Pwyllgor Pwnc er y byddai pob mater i'w ystyried yn cynnwys rhyw agwedd ar gydraddoldeb. Teimlai'r aelodau y gallai cwestiynau penodol fel y rhai a gynigiwyd gan Teresa Rees eu helpu i gymryd ymagwedd systemataidd tuag at godi materion cydraddoldeb gyda chyrff cyhoeddus a wahoddir i'w cyfarfodydd.

2.9 Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau o'u rôl i hyrwyddo ystyriaeth o gydraddoldeb yn eu pwyllgorau pwnc. Cynigiodd ysgrifennu at gadeiryddion y Pwyllgorau Pwnc i'w hysbysu am ymagwedd y Pwyllgor. O ganlyniad i'r drafodaeth, cynigiodd y Cadeirydd y gallai'r Pwyllgor fwrw golwg dros rai o bolisïau'r Cynulliad i gael syniad o sut i ymdrin â materion cydraddoldeb yn ymarferol.

2.10 Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd Charles Willie fod hyfforddiant ymwybyddiaeth cydraddoldeb i'r Aelodau hynny o'r Cynulliad a oedd yn ymwneud â phenodiadau cyhoeddus yn cael ei drefnu. Byddai'n ysgrifennu at yr Aelodau perthnasol gyda'r manylion yn ystod yr wythnosau nesaf.

**Eitem 3 ar yr Agenda: Comisiwn Hawliau Anabledd**
**Cyflwyniad a Phapur: EOC-03-00(p.2)**

3.1 Gwahoddodd y Cadeirydd Kevin Fitzpatrick i amlinellu rôl y Comisiwn Hawliau Anabledd (DRC) a gofynnodd hefyd iddo gyflwyno sylwadau am eu barn ar yr ymgynghoriad cyfredol ar Anghenion Addysgol Arbennig. Eglurodd ei fod yn rhan o grp a fyddai'n cyfarfod ar 19 Ebrill i ystyried ymateb y DRC yn genedlaethol. Ei farn bersonol oedd nad oedd addysg ar wahân yn briodol ac eithrio mewn achosion lle roedd rhieni am gael hynny i'w plant neu lle nad oedd addysg prif ffrwd yn bodloni anghenion unigolyn. Er y byddai ymateb y Comisiwn yn cael ei ddrafftio ar lefel genedlaethol, cynigiodd i'r Pwyllgor weld yr ymateb Cymreig.

3.2 Yn y gorffennol roedd Dr Fitzpatrick wedi cynnig rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor am sut y byddai'r DRC yng Nghymru yn gweithio gydag Anabledd Cymru. Hyd yn hyn nid oedd wedi llwyddo i weithredu ar hyn a chynigiodd gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor ar hyn yn ddiweddarach.

3.3 Byddai'r DRC yn dod yn weithredol ar 25 Ebrill 2000 gydag achlysur lansio cenedlaethol ar 19 Ebrill. Nod y DRC oedd cyflawni 'cymdeithas lle y gall pob person anabl gyfranogi'n llawn fel dinasyddion cyfartal'. Roedd hyn yn dasg fawr o gofio bod 8.6 miliwn o bobl yn genedlaethol yn syrthio o fewn termau'r ddeddfwriaeth sy'n diffinio anabledd. Byddai'r ffigwr hwn yn cynyddu gyda phoblogaeth sy'n heneiddio. Nid yw'r ymwybyddiaeth o faterion anabledd mor eang â chenedl a hil ond gyda chreu'r DRC a mwy o wybodaeth am yr agenda anabledd, roedd pethau'n datblygu. Byddai'r DRC yn ceisio cyflwyno'r achos o blaid pobl anabl yn well er bod agweddau yn newid ymhlith llunwyr barn, yn arbennig pobl ifanc anabl a oedd yn dod yn gynyddol lleisiol wrth ddadlau eu hachos. Gwnaed rhywfaint o gynnydd yn yr amgylchedd adeiledig, gan alluogi i bobl anabl gymryd eu lle mewn cymdeithas ac o ran trafnidiaeth a theithio.

3.4 Roedd chwe maes lle y gallai'r DRC weithio fwyaf effeithiol: cyngor, cymodi, gorfodi cyfreithiol, agweddau, safonau a'r gyfraith. O fis Medi, byddai canolfan galwadau i ddelio ag ymholiadau, gwefan, gweithwyr achos, gwasanaeth cyngor, ymgynghorwyr yn gweithio mewn cydweithrediad agos ag ACAS a thribiwnlysoedd cyflogaeth, a chymorth cyfreithiol i achosion unigol. Byddai'r DRC yn ceisio sicrhau newid drwy ddiddymu rhwystrau i addysg a thrwy ostwng terfyn cyflogaeth y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd. Byddai'r DRC yn monitro effaith ei weithgareddau yng Nghymru. Cydnabu y byddai'n fwy effeithiol gweithio gyda chyflogwyr i weithredu newid yn hytrach na gorfodi cydymffurfiad. Byddai 10 aelod o staff yng Nghymru a fyddai wedi'u lleoli yng Nghaerdydd.

3.5 O ran unrhyw ddylanwad y gallai'r DRC ei gael ar gynllun adeilad newydd y Cynulliad, hysbyswyd Dr Fitzpatrick fod mater yr adeilad wedi'i roi i'r neilltu ar hyn o bryd. Byddai Anabledd Cymru yn cynnal ymarfer ymgynghori yn ystod mis Mai ac yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor.

**Eitem 4 ar yr Agenda: Adroddiad Blynyddol Cyntaf y Pwyllgor**
**Papur: EOC-03-00(p.3)**

4.1 Gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i ystyried sgerbwd drafft Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor. Gofynnodd yr Aelodau a oedd digon o amser ar gael yn ystod cyfarfodydd misol y Pwyllgor i wneud cynnydd ar bob un o'i flaenoriaethau ac i gyfarfod â grwpiau ledled Cymru. Gallai'r Pwyllgor ystyried

cyfarfod yn anffurfiol pe byddent yn ymgymryd ag ymholiad penodol neu ddirprwyo niferoedd bach o Aelodau i ddelio â phynciau penodol. Gellid trafod rhai pynciau e.e. penodiadau cyhoeddus mewn pwyllgorau eraill hefyd gan gynnwys y Pwyllgorau Rhanbarthol. Awgrymwyd y byddai'n ddefnyddiol i'r Adroddiad Blynyddol gynnwys rhai dangosyddion allweddol o gydraddoldeb. Cytunodd yr Aelodau ar y cynigion yn y papur ar gyfer cwmpas yr adroddiad ac i ystyried drafft ohono yn y cyfarfod nesaf.

**Eitem 5 ar yr Agenda: Penodiadau Cyhoeddus**
**Papur: EOC-03-00(p.4)**

5.1 Cyflwynodd y Cadeirydd y papur hwn a oedd yn amlinellu ymagwedd tuag at ehangu'r gronfa o bobl a oedd yn gwneud cais am benodiadau cyhoeddus. Roedd yr Aelodau yn gyffredinol fodlon ond codwyd rhai pwyntiau manwl: dylai hyfforddiant cydraddoldeb fod yn orfodol i'r rheini a oedd yn ymwneud â phenodiadau cyhoeddus; byddai'r egwyddorion yn berthnasol i'r sector preifat ac nid ASPBs yn unig; a dylid ad-dalu sefydliadau am yr amser a fyddai'n cael ei dreulio gan y cyflogeion a fyddai'n ymwneud â gwasanaethu cyrff cyhoeddus. Cynigiwyd hefyd y dylai unrhyw dargedau adlewyrchu canran y gwahanol grwpiau o fewn y boblogaeth.

5.2 Gofynnodd yr Aelodau a oedd arweiniad ar nifer y penodiadau cyhoeddus y gallai un person eu dal; pa ddadbriffio a roddir i'r rhai a oedd yn aflwyddiannus wrth wneud cais am benodiad; ac a oedd oedran a galwedigaeth ymgeiswyr yn cael eu monitro. Nododd y Cadeirydd y byddai'n ysgrifennu at y Dirprwy Lywydd i wneud cais am wybodaeth ar y project Llais Ifanc a fu'n ystyried sut y gellid annog pobl iau i gymryd rhan mewn gwasanaeth cyhoeddus; ac am ddarparu gwybodaeth ar wasanaeth cyhoeddus yn y ganolfan addysg sydd wrthi'n cael ei datblygu yn Adeilad Pierhead. Cynigiodd hefyd, yng nghyd-destun canfod mwy am yr arfer cyfredol o ran penodiadau cyhoeddus, y byddai'n ddefnyddiol cael cyflwyniad yn y cyfarfod nesaf ar waith Uned Penodiadau Cyhoeddus yr NHS.

**Eitem 6 ar yr Agenda: Archwilio Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad**
**Papur: EOC-03-00(p.5)**

6.1 Cytunodd yr Aelodau ar yr ymagwedd tuag at ystyried materion cydraddoldeb mewn perthynas ag ASPBs a nodwyd yn y papur. Yn dilyn ystyriaeth y Pwyllgor o ASPB penodol, addawodd y Cadeirydd ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Pwnc priodol yn ogystal â'r Ysgrifennydd Cynulliad i'w hysbysu am y pwyntiau a godwyd wrth drafod.

6.2 Mynegodd yr Aelodau hefyd ddiddordeb yng ngwaith awdurdodau lleol wrth weithredu ystod eang o bolisïau'r Cynulliad. Awgrymwyd y gellid gwahodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i un o gyfarfodydd y Pwyllgor i wneud cyflwyniad am eu barn hwy am eu rôl wrth hybu cydraddoldeb.

**Eitem 7 ar yr Agenda: Cofnodion y cyfarfod blaenorol**
**Papur: EOC-02-00(min)**

7.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol yn gyffredinol er y byddai Kevin Fitzpatrick yn

ysgrifennu at y Clerc i awgrymu rhai newidiadau penodol i'w sylwadau. Dymunai un aelod gofnodi ei farn nad oedd y dystiolaeth gan ACCAC yn foddhaol o bell ffordd.

7.2 O ran cynrychiolaeth y Cynulliad yn y digwyddiad Beijing Plus Five, roedd Uned Merched Swyddfa'r Cabinet wedi nodi mai tua 20 fyddai nifer o gynrychiolwyr y DG. Roedd hyn yn cynnwys y Farwnes Jay a Tessa Jowell, cynrychiolwyr o amrywiaeth o Adrannau'r Llywodraeth, Comisiwn Cenedlaethol y Merched ac un cynrychiolydd o bob un o'r gweinyddiaethau datganoledig. Gallai'r Cynulliad enwebu mwy nag un cynrychiolydd ond y ddealltwriaeth oedd y byddai gan y Farwnes Jay, a fyddai'n awdurdodi'r rhestr o gynrychiolwyr, bryderon pe byddai'r gynrychiolaeth yn cynyddu yn fwy na'r 20 cyfredol. Byddai pob adran neu weinyddiaeth ddatganoledig yn gyfrifol am ei chostau ei hun. Ni fyddai cyfle i ddylanwadu ar ddatblygiad polisi yn y sesiwn Lawn o fewn siambrau'r Cenhedloedd Unedig (gan mai dim ond dwy i bedair sedd a ddyrennir i bob gwlad) ond y byddai llawer o gyfle i rwydweithio yn yr amrywiol grwpiau a'r cyfarfodydd atodol. Penderfyniad y Cynulliad oedd a ddylai gael ei gynrychioli gan Aelod neu un o'r swyddogion.

7.3 Teimlai'r Cadeirydd y byddai'n briodol i ddau o gynrychiolwyr y Cynulliad fynychu'r digwyddiad. Y Cabinet fyddai'n gwneud y penderfyniad terfynol ond teimlai'r Aelodau y dylai'r Cadeirydd fynychu'r digwyddiad. Roedd y Gynhadledd o arwyddocâd enfawr i ferched ac roedd angen i bobl gael gweld fod lefel uchel o gynrychiolaeth gan y Cynulliad yno. Byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at y Prif Ysgrifennydd i ofyn iddo hysbysu San Steffan am safbwyntiau'r Pwyllgor.

7.4 Mynegodd y Cadeirydd ei diolch i Judith Jones o'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol am y gwaith a wnaed ganddi fel cynrychiolydd y Comisiwn yn y Pwyllgor am y 12 mis diwethaf.

7.5 Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau fod dyddiadau dau gyfarfod y Pwyllgor ar gyfer tymor yr haf wedi'u cadarnhau fel 25 Mai a 29 Mehefin.

7.6 Daeth y cyfarfod i ben am 12.20pm.